

## Tasg 1

# Lluniau'r Nadolig (2)

1. Edrychwch ar y ddau lun a gwnewch nodiadau ynglŷn â'r hyn rydych chi'n ei weld ynddyn nhw.

2. **Gwaith pâr:**

Partner A: Disgrifiwch un o'r lluniau'n fanwl i'ch partner chi.

Partner B: Gwrandewch yn ofalus i weld ydy'ch partner chi'n anghofio cyfeirio at rywbeth yn y llun. Os ydyw, dywedwch wrtho / wrthi.

Gwnewch hyn eto, ond y tro yma, newidiwch rolau a defnyddiwch y llun arall.

3. Atebwch y cwestiynau hyn. Cofiwch roi rhesymau da bob tro.

### Llun 1

- a. Pwy ydy'r dynion yn y llun, tybed?
- b. Beth maen nhw'n ei wneud?
- c. Ble mae'r ceir a'r bobl, tybed? Pa fath o le ydyw? Rhowch reswm dros eich ateb.
- ch. Ym mha ran o'r byd mae'r llun wedi cael ei dynnu, tybed? Rhowch reswm dros eich ateb.

### Llun 2

- d. Pwy sy yn y llun?
- dd. Beth maen nhw'n ei wneud?
- e. Ble yn union maen nhw? Pa fath o le ydyw?

### Llun 1 a 2

- f. Mae'r ddau lun wedi eu tynnu adeg y Nadolig. Maen nhw'n dangos dwy ochr i'r Nadolig. Pa ddwy ochr?

4. Sut mae pobl yn eich ardal chi'n dathlu'r Nadolig fel arfer?  
Beth fyddwch chi'n ei wneud dros y Nadolig fel arfer?  
Trafodwch hyn mewn grŵp.

5. Chwiliwch am wybodaeth i weld sut mae pobl mewn rhan arall  
o'r byd yn dathlu'r Nadolig.  
Gwnewch nodiadau.  
Cyflwynwch y wybodaeth i'r grŵp.  
Ysgrifennwch ddarn "Dathlu'r Nadolig ar draws y byd" i'w roi  
mewn arddangosfa arbennig. Cofiwch gynnwys lluniau a  
mapiau.